Chwarae Teg

# MANIFFESTO AR GYFER CYDRADDOLDEB RHYWIOL YNG NGHYMRU



# Cyflwyniad

Yn y maniffesto hwn rydym wedi gosod gweledigaeth ar gyfer Cymru gyfartal. Cymru lle mae menywod, o bob cefndir a phrofiad, yn gallu cyflawni a ffynnu. Cymru lle rydym yn cydweithio i chwalu rhwystrau strwythurol, a lle gallwn oll elwa ar werth economaidd cydraddoldeb rhywiol, a allai ychwanegu £13.6 biliwn at ein heconomi. Yn yr adegau hyn o ansicrwydd byd-eang, mae'n fwy hanfodol byth inni fuddsoddi yn ein brwydr am gydraddoldeb ac elwa o fanteision hynny.

Mae pandemig Covid-19 wedi taflu goleuni ar yr anghydraddoldeb sydd wedi'i hen sefydlu yn ein cymdeithas. Ond wrth inni gryfhau eto ar ôl y pandemig, mae gennym gyfle i ailadeiladu Cymru sy'n fwy gofalgar, teg a chyfartal. Rhaid i'r Llywodraeth Cymru nesaf fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau newid strwythurol tymor hir, arloesi a chreu polisïau wedi'u cynllunio ar gyfer y bobl y mae'n ceisio'i gwasanaethu.

Pan siaradwn am gyflawni cydraddoldeb rhywiol, rydym yn bendant fod hyn yn golygu cydraddoldeb i **bob menyw yng Nghymru.** Er mwyn cyflawni hyn, mae angen inni ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf ar yr ymylon yn gyntaf; y menywod sy'n wynebu'r rhwystrau a'r anfanteision mwyaf. Mae hyn yn golygu **mabwysiadu dull croestoriadol.**

## Mae dull croestoriadol yn hanfodol i sbarduno newid strwythurol a sicrhau canlyniad cyfartal i bawb

Drwy edrych y tu ôl i'r ffigurau pennawd ar gyfer anghydraddoldeb rhywiol, buan y datgelir y gwahaniaethau sylweddol mewn profiad a chanlyniadau ymhlith gwahanol grwpiau o fenywod.

Er bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn culhau'n araf ar y cyfan, i fenywod lliw ac anabl, mae'n llusgo nid yn unig y tu ôl i ddynion ond hefyd y tu ôl i fenywod gwyn, nad ydynt yn anabl, gan ddatgelu'r rhwystrau croestoriadol sydd o'u blaenau.

Er bod llawer o fenywod yn gallu byw o ddydd i ddydd heb ofni gwahaniaethu amlwg, i fenywod lliw, mae hiliaeth a gormes yn realiti annerbyniol o hyd. Mae digwyddiadau 2020, a phrotestiadau Mae Bywydau Du o Bwys ym mhedwar ban byd, wedi ei gwneud yn glir fod hiliaeth wedi'i gwreiddio'n ddwfn o hyd yn ein cymdeithas, ein heconomi a'n sefydliadau.

Mae menywod anabl yn parhau i wynebu gwahaniaethu yn y farchnad lafur a'r system nawdd cymdeithasol, sy'n eu hatal rhag byw'n annibynnol. Ac mae menywod traws yn dal i wynebu gormes wrth iddynt ymladd am ddiwygiad y mae mawr ei angen i'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd.

Ni all Cymru alw ei hun yn genedl o gydraddoldeb rhywiol nes bod pob menyw'n gallu byw yn rhydd rhag gwahaniaethu, trais a gormes, ac yn gallu mwynhau canlyniadau teg a chyfiawn. Mae'n holl bwysig gwreiddio dull cwbl groestoriadol yn y broses o lunio polisïau. Dull sy'n cydnabod bod nodweddion fel rhywedd, hil, ethnigrwydd, ffydd, anabledd, oedran, rhywioldeb a dosbarth yn parhau i bennu pŵer, dylanwad, adnoddau a braint.

*"Nid wyf yn rhydd tra bydd unrhyw fenyw heb ryddid, hyd yn oed os yw ei hualau yn wahanol iawn i'm rhai i"*
*Audre Lorde*

## Gwneud Cymru'n arweinydd byd ar gyfer cydraddoldeb rhywiol

Dymuniad i wneud pethau'n wahanol fu un o egwyddorion canolog Cymru ddatganoledig, a chydraddoldeb yn ffocws arweiniol wrth sefydlu Senedd Cymru. Ugain mlynedd yn ddiweddarach, mae angen inni ofyn i'n hunain ba gynnydd a wnaethom tuag at gyflawni'r weledigaeth honno i Gymru.

Nes bod pawb yng Nghymru'n gallu ffynnu, ac elwa ar ganlyniadau teg a chyfiawn, nid ydym wedi cyflawni'r weledigaeth hon o Gymru decach. Mae'r pump, a'r ugain, mlynedd nesaf yn gyfle i weithredu'n llawer mwy radical, arloesi ac ymrwymo i gyflenwi newid strwythurol tymor hir.

Roedd yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yn gosod rhaglen uchelgeisiol o newid, nid yn unig i beth a wnawn ond i **sut** rydym yn ei wneud. Wrth ei wraidd mae gweledigaeth radical ar gyfer cyflawni cydraddoldeb rhywiol i **bob** menyw yng Nghymru:

Mae Cymru sy'n gyfartal o ran rhyw yn golygu rhannu pŵer, dylanwad ac adnoddau'n gyfartal rhwng pob menyw, dyn a phobl anneuaidd.

Mae'r weledigaeth hon yn edrych y tu hwnt i sicrhau **cyfle cyfartal**, sydd mewn gwirionedd yn gadael llawer o bobl heb fawr o gyfle i gyflawni eu llwyr botensial. Yn hytrach, canolbwyntia ar sicrhau **canlyniad cyfartal**, i sicrhau ein bod yn achub ar bob cyfle i fynd i'r afael â'r annhegwch strwythurol sy'n atal menywod ac eraill.

Er mwyn llwyddo, bydd angen i'r rhaglen newid a amlinellwyd yn adroddiad yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol Gwneud nid Dweud rychwantu nifer o dymhorau'r Senedd. Wrth wraidd y rhaglen newid hon, mabwysiadir y broses o brif ffrydio cydraddoldeb, i gefnogi prosesau cynllunio, cyflenwi a gwerthuso polisïau a arweinir gan dystiolaeth, sy'n cyflawni'n deg i bob cymuned ledled Cymru. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau ar y siwrnai hon drwy gydol tymor nesaf y Senedd, ac felly galwn ar yr holl bleidiau i ymrwymo i osod cydraddoldeb rhywiol wrth wraidd eu cynigion polisi a pharhau i weithredu argymhellion yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol pe byddent yn ffurfio'r Llywodraeth Cymru nesaf.

1

**Gosod cydraddoldeb rhywiol wrth wraidd y llywodraeth:**

- Mabwysiadu a gwreiddio'r weledigaeth ar gyfer cydraddoldeb rhywiol a nodwyd yn *Gwneud nid Dweud*
- Mabwysiadu a gweithredu'r egwyddorion am lywodraeth ffeministaidd a nodwyd yn *Gwneud nid Dweud*
- Ymrwymo i gyflenwi'r argymhellion a nodwyd yn yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yn llawn er mwyn newid yn sylfaenol y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu a datblygu a chyflenwi polisi

## Gosod y sylfeini: pwysigrwydd tystiolaeth cydraddoldeb

Mae data a thystiolaeth dda'n allweddol i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru sy'n gyfartal o ran rhywedd. Heb y dystiolaeth gywir, sut gwyddom o ble rydyn ni'n dechrau, i ble rydyn ni'n mynd neu pa mor dda rydyn ni'n gwneud hynny?

Rhaid bod casglu, dadansoddi a chyhoeddi tystiolaeth ddadelfenedig, gadarn am gydraddoldeb yn flaenoriaeth bennaf i bob lefel o lywodraeth. Gwyddom nad yw rhai grwpiau'n cael eu cynrychioli'n dda mewn setiau data cenedlaethol mwy o faint, ond ni all hynny fod yn esgus dros beidio â cheisio deall eu profiadau a deall a ydy polisïau a rhaglenni'n cyflawni'n deg.

Gall gwell cydbwysedd o dystiolaeth feintiol ac ansoddol, ynghyd â dull o lunio polisïau sy'n ymgysylltu â'r rheini â phrofiad byw, lenwi'r bylchau hyn a sicrhau gwell polisi cyhoeddus.

Mae tystiolaeth gadarn o gydraddoldeb yn rhoi'r sylfeini ar gyfer gwneud gwell polisïau. Ac felly, mae nifer o leoedd yn y maniffesto hwn lle galwn am gasglu, cyflwyno a defnyddio data a thystiolaeth yn well, er mwyn cynorthwyo'r broses llunio polisïau, craffu ac atebolrwydd, ac i helpu i sbarduno newid.

# Menywod yn yr Economi

Mae angen economi arnom yng Nghymru sydd â chydraddoldeb rhywiol – lle gall menywod gyfranogi'n llawn mewn gwaith, lle gwerthfawrogir eu gwaith a lle rydym wedi dileu anghydraddoldeb incwm. Os gallwn gyflawni'r weledigaeth hon, gallai economi Cymru elwa ar £13.6 biliwn ychwanegol mewn gwerth ychwanegol gros (GYG) erbyn 2028. Ond mae llawer o gynnydd i'w wneud.[1]

**Mae'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau (y Bwlch Cyflog)** yn offeryn hanfodol i ddeall cyflwr anghydraddoldeb rhywiol. Adlewyrcha'r anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion mewn gwaith, drwy fesur y gwahaniaeth yn eu henillion ar draws sefydliad, sector neu ardal. Amlyga'r anghysondeb mewn enillion cyfartalog rhwng menywod a dynion, a gwahanu'r rhywiau mewn gwahanol fathau o rolau. Datgela'r Bwlch Cyflog yr anghydraddoldeb strwythurol sy'n wynebu menywod; yn nodweddiadol, mae rolau a phatrymau gwaith menywod yn cael llai o dâl ac yn llai o ran gwerth economaidd. Er enghraifft, weithiau daw'r gwahaniaeth hwn am fod tâl cyfartalog am rolau rhan-amser yn llawer is na rolau llawn amser.
Mae'r Bwlch Cyflog hefyd yn ddefnyddiol i nodi ymhle rhwystrir menywod rhag symud i rolau uwch. Felly, mae deall a monitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn rhan bwysig i sefydliadau a'r Llywodraeth sylwi ar feysydd lle mae angen gweithredu, ac asesu cynnydd.
Gellid cau'r Bwlch Cyflog drwy ostwng tâl cyfartalog dynion, ond ni fyddai hynny'n gwella cydraddoldeb. I gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau mewn modd ystyrlon, rhaid inni fynd i'r afael ag achosion gwreiddiol anghydraddoldeb rhywiol yn ein heconomi, sbarduno rhannu gwaith gofalu di-dâl yn fwy cyfartal, mabwysiadu ffyrdd hyblyg, newydd o weithio a sicrhau y gall menywod gael gwaith a datblygu ynddo ar draws holl sectorau'r economi.

Ar hyn o bryd, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru yn 15%, sy'n rhoi syniad o'r anghydraddoldeb yn ein marchnad lafur.[2] Y tu ôl i'r ffigur hwn gwelwn amrywiaeth o ganlyniadau anghyfartal i fenywod; sy'n dal i fod yn llai tebygol o gael eu cyflogi, yn fwy tebygol o fod allan o waith gyda thâl, o ganlyniad i gyfrifoldebau gofalu ac yn fwy tebygol o weithio mewn swyddi rhan-amser am dâl isel.

Y gyfradd gyflogaeth i fenywod yng Nghymru yw 70% o'i chymharu â 77% i ddynion[3]

Mae 28% o fenywod yn anweithgar yn economaidd am eu bod yn gofalu am y teulu neu'r cartref, o'u cymharu â 7% o ddynion[4]

Mae menywod yn ennill £11.20 yr awr ar gyfartaledd o'i gymharu â £13.10 i ddynion[5]

Mae 41% o fenywod yn gweithio rhan-amser o'u cymharu â 12% o ddynion[6]

Mae perygl ehangu'r mathau hyn o anghydraddoldeb wrth inni fynd i'r afael ag argyfwng Covid-19 a gwella ohono. Mae menywod ymhlith y grwpiau y rhagwelir y bydd yr argyfwng yn eu taro galetaf, o ystyried eu lle mwy blaenllaw mewn sectorau a gaewyd am y cyfnod hiraf ac sy'n debygol o gymryd hirach i adfer.[7]

Nid yw anghydraddoldeb rhywiol yn yr economi yn anochel. Gallwn sicrhau Cymru lle gall menywod gael mynediad llawn i'r farchnad lafur, a chyfranogi ynddi, a ble mae cydbwysedd gwaith a gofal yn seiliedig ar ddewis go iawn.

Mae cyfle i Gymru wneud pethau'n wahanol. Mae gennym y potensial i greu economi sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb a llesiant. Economi sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd a gwerth gofal; gyda Llywodraeth sy'n cydnabod bod arian sy'n cael ei wario ar seilwaith cymdeithasol fel gofal plant, yn fuddsoddiad yn ein heconomi ein hunain. Economi sy'n cefnogi annibyniaeth ariannol menywod, ac sy'n gwobrwyo menywod yn deg am y gwaith a wnânt ar draws pob sector. Gall Cymru fod, ac fe ddylai fod, yn genedl lle mae'r economi yn cefnogi pawb i ffynnu, lle mae hiliaeth, rhywiaeth a gwahaniaethu yn perthyn i'r gorffennol a lle mae gwaith yn darparu'r sicrwydd ariannol angenrheidiol i ddileu tlodi ac anghydraddoldeb.

[1] Cebr (2018) *The Economic Value of Gender Equality*, Chwarae Teg

[2,3,4,5,6] Chwarae Teg (2020) *Cyflwr y Genedl 2020*

[7] Dadansoddiad Cyllidol Prifysgol Cymru Caerdydd (2020) Covid-19 and the Welsh economy: shutdown sectors and key workers. Hagendyk, D. a Finnegan, J. (2020) Deall effaith bosibl y coronafeirws yng Nghymru, y Sefydliad Dysgu a Gwaith

Rhaid bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol yn yr economi yn flaenoriaeth ganolog i'r Llywodraeth Cymru nesaf. Dylai dechrau tymor nesaf y Senedd fod yn ddechrau newid radical yn y ffordd y byddwn yn trefnu a strwythuro ein heconomi. Y camau isod yw'r rhai sydd, yn ein barn ni, yn hollbwysig i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y farchnad lafur a sicrhau bod pob menyw yng Nghymru yn gallu ffynnu.

## 1 Datblygiad Economaidd

Mae angen dull economaidd ar Gymru sy'n troi dweud yn wneud, sy'n cyd-fynd â'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol ac sy'n cyflenwi annibyniaeth economaidd i fenywod.

Bydd hyn yn mynnu egwyddorion a sylfeini newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau economaidd, gan ganolbwyntio o'r newydd ar gydraddoldeb fel nod economaidd yn ogystal â chymdeithasol, a defnyddio'n llawn y liferi sydd ar gael, fel treth a chaffael. Bydd angen strwythurau newydd arnom i gefnogi'r broses o weithredu strategaeth felly'n effeithiol, ffyrdd newydd o weithio sy'n prif ffrydio cydraddoldeb a mesurau newydd sy'n asesu cynnydd mewn perthynas â dealltwriaeth fwy cytbwys a chyflawn o lwyddiant economaidd.

Nid yw dulliau traddodiadol o ddatblygu'r economi yn gweithio i fenywod, nac ychwaith i lawer o rai eraill. Mae'r anghydraddoldeb presennol yn cael ei atgyfnerthu a'i ail-greu drwy bolisi economaidd sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gynnyrch domestig gros i fesur llwyddiant ac mae hynny'n canolbwyntio buddsoddiad ar sectorau "budr" traddodiadol, gweithgynhyrchu gwerth uchel a thechnoleg, gyda phob un ohonynt yn cyflogi dynion yn bennaf.

Diystyriwyd ac anwybyddwyd sectorau hanfodol o'r economi, fel gofal, yn barhaus gan strategaethau economaidd, gan adael llawer o filoedd o fenywod yn bennaf yn gaeth mewn swyddi tâl isel, heb eu gwerthfawrogi, yr ydym oll yn dibynnu arnynt.

Mae strategaethau economaidd yn darparu'r fframwaith lle caiff llawer o waith llywodraeth ei gynllunio a'i gyflenwi. Mae'n allweddol felly osgoi polisi economaidd sy'n ddall i ryw, a sicrhau bod cydraddoldeb yn nod i'w gyrraedd ynddo'i hun.

1 **Dylai penderfyniadau economaidd gael eu tywys a'u hysbysu gan egwyddorion a sylfeini newydd:**
- Rhaid adolygu'r strategaeth economaidd gyfredol a chynnwys ymrwymiad i nifer o egwyddorion a sylfeini arweiniol, gan gynnwys twf cynhwysol go iawn, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gwaith teg, llesiant a gwerthoedd bod yn fodau dynol gofalgar

2 **Dylai strategaeth economaidd newydd ganolbwyntio o'r newydd ar gydraddoldeb:**
- Cydnabod bod cydraddoldeb rhywiol yn rheidrwydd economaidd a chryfhau liferi i sicrhau bod y rhai sy'n cael arian cyhoeddus yn arddangos sut y byddant yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb
- Gwneud gofal yn sector allweddol yn strategaeth economaidd genedlaethol Cymru i'w gydnabod yn ganolog i'n llesiant a chanolbwyntio buddsoddiad a chymorth arno
- Buddsoddi yn y seilwaith gwladol, gan gynnwys gofal plant, gofal cymdeithasol, gofal iechyd ac addysg, er mwyn i bobl allu ymgysylltu â'r economi a chyflawni gwaith teg yn y sectorau hyn
- Sicrhau cyllid cynaliadwy dros nifer o flynyddoedd i sefydliadau cydraddoldeb arbenigol sy'n gallu cefnogi cyflenwi strategaeth economaidd gynhwysol
- Defnyddio trethiant yn lifer i ddatblygu cydraddoldeb, gan sicrhau bod incwm yn cael ei drethu'n annibynnol ac ystyried diwygio'r dreth gyngor
- Symleiddio a chyfuno canllawiau caffael sy'n prif ffrydio cydraddoldeb rhywiol ac sy'n cyflenwi egwyddorion ffyniant, cydraddoldeb, cynhwysiant a chydnerthedd

3 **Dylid rhoi strwythurau newydd ar waith i gefnogi gweithredu dull economaidd newydd:**
- Amrywiaethu'r cyngor sy'n dod i mewn i'r llywodraeth drwy sicrhau bod grwpiau cynghori a byrddau ar ddatblygu'r economi, yn rhai presennol a rhai newydd, ar bob lefel (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol) yn cynnwys safbwyntiau ffeministaidd
- Ehangu cylch gwaith y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i gynnwys seilwaith cymdeithasol a sicrhau bod safbwyntiau ffeministaidd o gwmpas y bwrdd

4 **Dylid datblygu prosesau a ffyrdd o weithio sy'n prif ffrydio cydraddoldeb:**
- Gwreiddio cyllidebu ar sail rhyw ar draws Llywodraeth Cymru a sector cyhoeddus Cymru
- Datblygu polisïau economaidd mewn cydweithrediad â grwpiau amrywiol a sicrhau bod mecanweithiau ymgysylltu a chynnwys yn cael eu hadnoddu'n ddigonol a gwerthfawrogi'r arbenigedd a ddaw o brofiad byw

5 **Dylid ehangu mesurau economaidd y tu hwnt i ddangosyddion traddodiadol yn unig, sy'n canolbwyntio ar dwf:**
- Mabwysiadu mesurau economaidd sy'n cynnwys llesiant a chydraddoldeb
- Mesur polisïau economaidd gan ddefnyddio data cydraddoldeb dadelfenedig
- Ymgorffori gofal di-dâl mewn mesurau economaidd

## 2 Menywod mewn Gwaith

Safle anghyfartal menywod mewn gwaith yw un o'r ffactorau mwyaf sylweddol sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb rhywiol yng Nghymru. Mae'n debygol fod argyfwng Covid-19 a'i effaith economaidd yn gwaethygu'r anghydraddoldeb hwn.

Mae menywod yn flaenllaw mewn sectorau a swyddi sy'n gysylltiedig â thâl isel, contractau ansicr ac amodau gwaith gwael. Maent yn fwy tebygol o weithio rhan-amser neu lai o oriau, ac yn llai tebygol o lenwi swyddi rheolwyr neu gyfarwyddwyr. Yng Nghymru, mae 41% o fenywod yn gweithio rhan-amser, sydd bron bedair gwaith yn fwy na dynion, a 39% yn unig o reolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion sy'n fenywod.[8]

Mae menywod yn dal i wynebu rhwystrau a gwahaniaethu yn y gweithle oherwydd beichiogrwydd, mamolaeth a materion eraill sy'n berthynol i iechyd atgenhedlu neu rywiol, gan gynnwys menopos. Canfu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) fod 11% o famau wedi'u diswyddo'n annheg, a bod un o bob pump wedi cael profiad o aflonyddu neu sylwadau negyddol mewn perthynas â mamolaeth.[9] Canfu arolwg gan TUC fod dros ddwy ran o dair o fenywod yn sôn bod y menopos yn effeithio ar eu bywyd gwaith.[10] Drwy gydol Covid-19 yn benodol, ni fu canllawiau a dulliau diogelu clir i fenywod beichiog yn y gweithle. Rhaid i unrhyw ymagwedd at wella amodau gwaith i fenywod fynd i'r afael ar frys â gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd, mamolaeth a menopos.

[8] Chwarae Teg (2020) *Cyflwr y Genedl*

[9] EHRC (2016), *Pregnancy and Maternity-related Discrimination and Disadvantage: Experience of Mothers*

[10] Wales TUC (2020) *The Menopause in the Workplace*

Er mwyn gweld menywod yn llwyddo yn y gwaith, mae angen dull deuol arnom:

**Gwella ansawdd y gwaith:** Mynd i'r afael ag amodau ac ansawdd gwaith, a'u gwella, yn y sectorau hanfodol lle mae menywod yn flaenllaw ar hyn o bryd; iechyd a gofal, gwasanaethau glanhau a gweinyddu, adwerthu a bwyd a diod.

**Cael menywod i waith:** Ar yr un pryd, galluogi menywod i ymuno â sectorau cynhyrchiant uchel, tâl uwch, a symud ymlaen yn y sectorau hyn, fel STEM a thechnolegau newydd sy'n dod i'r amlwg.

Ni ellir ystyried y nodau hyn ar wahân i ofal plant. Gofalu am blant a/neu'r cartref yw un o'r prif resymau o hyd dros gadw menywod allan o'r farchnad lafur. Rhaid i'r ymdrechion i wella ansawdd gwaith menywod a nifer y menywod sy'n gweithio felly fod ynghyd â seilwaith gofal plant effeithiol ac ymdrechion i ail-gydbwyso gofal di-dâl ar aelwydydd.

Mae newid ein ffordd o strwythuro gwaith a gweithleoedd hefyd yn rhan allweddol o'r ateb. Buan yr addaswyd ffyrdd o weithio o ganlyniad i bandemig Covid-19, a channoedd ar filoedd o weithwyr yn addasu i weithio o gartref. Mae hwn yn gyfle allweddol i addasu, gwella a chymell arferion gweithio modern sy'n cefnogi pobl i ddechrau gweithio a datblygu yn y gwaith, a hynny gan gynnal cydbwysedd iachus rhwng bywyd a gwaith. Yn benodol, dyma gyfle i alluogi pobl i ymuno â'r gweithle sydd wedi'u cloi allan yn y gorffennol; gan gynnwys menywod anabl, menywod sydd â chyfrifoldebau gofalu cymhleth a grwpiau eraill sydd ar yr ymylon. Nawr yw'r amser i ymgorffori symudiad at arferion gwaith cynhwysol a hyblyg.


Dylai cefnogi menywod i gael gwaith teg, teilwng a datblygu yn y gwaith hwnnw fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth a ddaw i mewn yng Nghymru yn 2021.

1 **Rhaid i raglenni cyflogadwyedd ddeall ac ymateb i anghydraddoldeb rhywiol yn y farchnad lafur, gan gynnwys sut mae materion fel gofalu, gwahanu yn y farchnad lafur, tâl isel a gwaith o ansawdd gwael yn effeithio'n wahanol ar fenywod a dynion. Rhaid i unrhyw gynllun cyflogadwyedd yn y dyfodol:**
- Fod yn hygyrch i fenywod a mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r rhwystrau sy'n wynebu menywod rhag dechrau gweithio a datblygu yn y gwaith
- Mabwysiadu dull unigol o gefnogi cyflogaeth, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Datblygu cymorth arbenigol, ar y cyd â sefydliadau cynrychiadol i fenywod sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol rhag cyflogaeth ac a fu'n absennol o'r farchnad lafur am gyfnod hir
- Cynnwys mesurau llwyddiant a thargedau penodol, mesuradwy o ran rhywedd, sy'n mesur canlyniadau caled a meddal ac sy'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd
- Cyfannu ymyriadau cyflogadwyedd ochr yn ochr ag unrhyw gynnig gofal plant i sicrhau bod darpariaeth gofal plant yn cefnogi pobl i gael mynediad at waith

2 **Gwella ansawdd gwaith i fenywod:**
- Gwella arferion gwaith teg yng Nghymru, gyda chydraddoldeb wrth eu gwraidd a ffocws o'r newydd ar y sectorau sylfaenol sy'n ganolog i gynnal ein cymunedau
- Cyhoeddi canllawiau clir i gyflogwyr i'r hyn a olygir wrth Waith Teg, gyda chydraddoldeb rhywiol wedi'i brif ffrydio drwy'r cyfan. Dylai hyn gynnwys gofynion clir ar gyfer monitro ac adrodd
- Mynnu bod pawb sy'n cael cyllid Llywodraeth Cymru – boed yn uniongyrchol, drwy ymarferion caffael ffurfiol neu drwy sefydliadau fel Banc Datblygu Cymru – yn arddangos sut maen nhw'n bodloni gofynion gwaith teg

3 **Cefnogi cyflogwyr i fabwysiadu a gweithredu ymhellach arferion gwaith modern er mwyn creu gweithleoedd modern mwy cynhwysol:**
- Creu canolbwynt canolog o wybodaeth i gyflogwyr am arferion gwaith modern, gan gynnwys arfer gorau, canllawiau, rhwydweithiau, ac arwyddion at arbenigedd a gwasanaethau cymorth fel gwasanaeth Cyflogwr Chwarae Teg
- Gwneud cyllid ar gael i gyflogwyr i'w cefnogi i fuddsoddi mewn seilwaith sy'n berthnasol i arferion gwaith modern; boed hwnnw'n seilwaith ffisegol fel technoleg, neu fuddsoddiad i gefnogi hyfforddiant staff a rheolwyr i droi at ffyrdd newydd o weithio.

4 **Gweithio gyda chyrff sector a busnesau i nodi llwybrau gyrfa clir mewn sectorau sylfaenol a chefnogi gwell dilyniant staff, yn benodol i fenywod a grwpiau amrywiol eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi uwch:**
- Gweithio gyda chyrff sector a busnesau i nodi rhwystrau rhag dilyniant sy'n benodol i sector
- Gweithio gyda sefydliadau arbenigol i ddatblygu ymyriadau a fydd yn sicrhau bod llwybrau dilyniant newydd yn gynhwysol a hygyrch



## 3 Menywod mewn Busnes

Mae hunangyflogaeth yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i fenywod, gan roi mwy o hyblygrwydd a rhyddid i lawer. Fodd bynnag, mae profiadau menywod a dynion o hunangyflogaeth yn wahanol a rhaid ystyried y gwahaniaethau hyn i sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i fenywod sy'n mynd ar drywydd hunangyflogaeth.

- Mae 9% o fenywod yng Nghymru'n hunangyflogedig o gymharu â 17% o ddynion.[11]
- Mae menywod yn fwy tebygol o redeg busnesau llai o faint ac yn llai tebygol o gyflogi pobl eraill.[12] Mae menywod yn arwain 16% yn unig o'r busnesau 'sy'n tyfu gyflymaf' yng Nghymru.[13]
- Maent hefyd yn mynd adref â chyflogau is, gyda 43% o fwlch cyflog hunangyflogaeth rhwng y rhywiau yn y DU.[14]

Er bod hunangyflogaeth yn apelio, mae rhwystrau a heriau o hyd i fenywod sy'n gobeithio ymuno ag entrepreneuriaeth gan gynnwys:[15]

- Mynediad at gymorth busnes a chyllid – yn nodweddiadol, mae gan fenywod lai o gyfalaf na dynion, sy'n ei gwneud yn anodd buddsoddi. Mae menywod sy'n mynd yn hunangyflogedig yn fwy tebygol o fyw mewn aelwydydd pâr lle ceir incwm arall i ddibynnu arno.
- Diffyg hawliau cyflogaeth sylfaenol fel absenoldeb rhiant ac absenoldeb oherwydd salwch – gall hwn fod yn rhwystr penodol i fenywod anabl pan fydd angen iddynt gymryd amser i ffwrdd o'r gweithle, ac mae incwm cyfnewidiol wrth gychwyn ar entrepreneuriaeth hefyd yn gallu effeithio ar incwm a bod yn gymwys ar gyfer nawdd cymdeithasol.[16] Er bod y pŵer i newid hyn yn perthyn i Lywodraeth y DU o hyd, dylai unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol geisio cydweithio i wella'r cymorth i fenywod hunangyflogedig.
- Mynediad at rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol, sy'n gallu bod yn hanfodol i sefydlu a chreu busnes llwyddiannus.

Mae'r rhwystrau hyn yn benodol o ddifrifol i fenywod â nodweddion gwarchodedig ychwanegol; yn ein hymchwil ein hunain gyda menywod duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a menywod anabl, daethpwyd i'r casgliad fod angen ymyriad wedi'i dargedu a'i deilwra er mwyn cefnogi'r grwpiau hyn yn benodol.[17]

I gefnogi menywod mewn busnes yn effeithiol a chau'r bwlch rhwng y rhywiau mewn hunangyflogaeth, rhaid i'r Llywodraeth Cymru a ddaw i mewn yn 2021 sicrhau bod rhaglenni ac ymyriadau'n cael eu cynllunio'n benodol i fenywod, sy'n ymateb i'r rhwystrau a'r heriau unigryw sy'n eu hwynebu.

[11] Chwarae Teg (2020) *Cyflwr y Genedl 2020*

[12] Henley, A. and Laing, M. (2017) Gwasg Prifysgol Caerdydd, Welsh Economic Review, *Self-employment in Wales: micro-business activity or the rise of the gig economy?* https://orca.cf.ac.uk/107756/1/wer_0_25_2017_j.2017.10194.pdf accessed April 2020

[13] Chwarae Teg (2020) *Cyflwr y Genedl 2020*

[14] IPSE *Men earn 43 per cent more than women in self-employment, IPSE research finds* 12 Mawrth 2020

[15] Llywodraeth Cymru (2019) Cefnogi Merched Entrepreneuraidd yng Nghymru; Ffederasiwn Busnesau Bach (2016) Women in Enterprise: Untapped Potential; Chwarae Teg (2018) Bright: Young Women's Career Aspirations.

[16] Chwarae Teg (2020) *"Cymdeithas yw'r Anabledd": Menywod Anabl mewn Gwaith*

[17] Chwarae Teg, *"Cymdeithas yw'r Anabledd": Menywod Anabl mewn Gwaith; ChwaraeTeg (2019) Nenfwd Gwydr Triphlyg: Rhwystrau i Fenywod Du, Asiaidd, Lleiafrif Ethnig (BAME) mewn Gwaith*

1 **Gwella'r cyngor a'r cymorth ynghylch hunangyflogaeth i fenywod:**
- Creu canolbwynt i fenywod mewn hunangyflogaeth, cyfeirio at gyllid cymorth busnes, prosesau ymgeisio a chyngor busnes, gydag ymyriadau wedi'u targedu er mwyn gwella mynediad menywod at gyllid a chymorth
- Gwella cyngor gyrfaoedd ynghylch hunangyflogaeth, gyda gwybodaeth am gychwyn ar entrepreneuriaeth, rhwydweithiau, mynediad at gyllid, rhaglenni mentora ac astudiaethau achos am siwrneiau menywod hunangyflogedig. Mae hyn yn hanfodol i ferched ifanc, ond rhaid gwella'r ddarpariaeth mewn addysg orfodol a thrwy gydol bywyd oedolyn

2 **Casglu data sy'n berthnaol i fenywod hunangyflogedig, a busnesau a arweinir gan fenywod yng Nghymru yn well, er mwyn deall tueddiadau a monitro cynnydd:**
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol am gyflwr entrepreneuriaeth yng Nghymru, gan gynnwys adran benodol ar gydraddoldeb, a niferoedd y bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys menywod mewn hunangyflogaeth

3 **Datblygu rhaglenni cymorth wedi'u teilwra a'u hysbysu gan brofiadau ac anghenion menywod amrywiol yng Nghymru, i gefnogi menywod i fynd yn hunangyflogedig:**
- Dylai'r rhain gynnwys cymorth busnes cyn dechrau, camau i fagu hyder menywod wrth iddynt ddechrau hunangyflogaeth a chael at fentoriaid menywod o gefndiroedd amrywiol

4 **Cymell cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n cael arian cyhoeddus i gomisiynu gwasanaethau a chynhyrchion gan fusnesau a arweinir gan fenywod:**
- Annog sefydliadau i feddwl y tu hwnt i'r cyrff arferol wrth gomisiynu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn elwa ar amrywiaeth mewn arweinyddiaeth drwy gydol eu cadwyni cyflenwi

## 4 Gofal plant

Mae diffyg gofal plant hygyrch, fforddiadwy yn rhwystr allweddol i fenywod o hyd rhag dechrau a datblygu mewn gwaith. Derbynnir yn helaeth fod cyfranogiad llafur llawn menywod yn mynnu bod gofal plant ar gael yn llawn amser ac i fodloni galw'r gwaith yn ystod oriau gwaith y rhieni a gwyliau ysgol.[18]

Mae gofal plant yn rhan mor hanfodol o'n seilwaith â ffyrdd a rheilffyrdd; rhaid cydnabod hyn mewn polisi cyhoeddus. Eto i gyd, mae arian sy'n cael ei wario i ddarparu neu gymorthdalu gofal plant yn cael ei ystyried o hyd yn 'wariant' yn hytrach na buddsoddiad.

Ar hyn o bryd, tameidiog yw'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru, a hwnnw'n rhy aml yn gymhleth, anhygyrch, anhyblyg a drud. Mae cymhwystra'n gysylltiedig ag oedran eich plentyn, a ydych chi'n gweithio ac ymhle rydych chi'n byw. Mae hyn yn creu dryswch a chrybwyllwyd rhieni'n cael biliau gofal plant annisgwyl o ganlyniad.[19]

Mae'r Cynnig Gofal Plant cyfredol yn canolbwyntio cymorth ar blant tair i bedair oed. Erbyn hyn, mae llawer o rieni eisoes wedi penderfynu sut i newid eu patrymau gwaith i wneud lle i gyfrifoldebau gofalu. Yn aml, yn sgil hyn, mae menywod yn lleihau eu horiau neu'n gadael y gweithlu'n llwyr, am fod gofal i blant o dan dair oed yn waharddol o ddrud o hyd. Cymhlethwyd cyflenwi'r Cynnig ymhellach o ganlyniad i ddwy gydran - addysg y blynyddoedd cynnar drwy'r Cyfnod Sylfaen a gofal plant ffurfiol – yn cael eu cyflenwi mewn gwahanol ffyrdd ar draws gwahanol ardaloedd awdurdod lleol.[20]

Gall y materion hyn fod yn arbennig o ddifrifol i fenywod ar incwm isel. Canfu ein hymchwil i dlodi menywod yn 2019 fod costau gofal plant hyd at dair oed yn waharddol i'r holl fenywod heblaw'r rheini sy'n ennill uwchlaw'r cyfartaledd.[21] Canfuom hefyd nad yw gweithio'n opsiwn i lawer o fenywod mewn galwedigaethau tâl isel, heblaw bod ganddynt deulu i ddarparu gofal, ac er bod y Cynnig Gofal Plant yn cael ei werthfawrogi gan fenywod sy'n gweithio 30+ awr yr wythnos, am fod pedair o bob deg menyw'n gweithio rhan-amser, nid yw bob amser yn addas ac nid yw ar gael o gwbl i fenywod ar yr incymau isaf.[22]

[18] Adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd o'r Comisiwn i Senedd Ewrop, y Cyngor, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau (2018) *Barcelona objectives on the development of childcare facilities for young people with a view to increase female labour participation, strike a work-life balance for working parents and bring about sustainable and inclusive growth in Europe; OECD (2017), Starting Strong 2017: Key OECD Indicators on Early Childhood Education and Care* https://read.oecd-ilibrary.org/education/starting-strong-2017_9789264276116-en#page32 [CYRCHWYD 11 Ebrill 2019]

[19] BBC Childcare Offer for Wales: Parents 'shocked' by bills 5 Ionawr 2020 https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-50957390 Cyrchwyd Mehefin 2020

[20] Llywodraeth Cymru (2019) *Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru*

[21] Winkler, V. (2019) *Yn Gaeth: Tlodi ymhlith menywod yng Nghymru heddiw*, Chwarae Teg

[22] Ibid



Gallai buddsoddiad mewn gofal plant fod yn drawsffurfiol, ond ni fydd effaith ar faterion fel cyflogaeth mamau yn digwydd ar unwaith o reidrwydd. Yn aml, gwneir penderfyniadau am deulu a gwaith flynyddoedd ymlaen llaw a gall fod yn anodd eu newid. Mae'n holl bwysig felly fod gan rieni hyder tymor hir yn y system gofal plant. Gall y Llywodraeth Cymru a ddaw i mewn yn 2021 ddarparu hyn drwy gyflenwi system gofal ac addysg plentyndod cynnar integredig sy'n sicrhau cyrhaeddiad addysgol uchel ac sydd hefyd yn fforddiadwy a hygyrch i gefnogi menywod i ddechrau gweithio a datblygu mewn gwaith.

1 **Cyflenwi System Gofal ac Addysg Plentyndod Cynnar integredig:**
- Dod â'r cyfrifoldeb am ofal ac addysg y blynyddoedd cynnar i un adran yn Llywodraeth Cymru i gydlynu polisi a chryfhau arolygiaeth Weinidogol
- Cydredeg cymwysterau, rheoliadau ac arolygiadau ar draws darpariaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Creu llwybr dilyniant clir i'r rheini sy'n ymuno â'r gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n arwain at gymwysterau lefel gradd
- Buddsoddi mewn seilwaith gofal plant i gefnogi cyd-leoli gofal plant a'r blynyddoedd cynnar mewn un safle

2 **Diwygio'r ddarpariaeth gofal plant:**
- Cyflenwi gofal plant amser llawn am ddim, o ansawdd da i bob plentyn 0-4 oed am 48 wythnos o'r flwyddyn
- Buddsoddi mewn gofal plant a gofal gwyliau cofleidiol i sicrhau ei fod ar gael ac yn fforddiadwy i bawb

3 **Gwella mynediad at wybodaeth am gymorth gofal plant:**
- Datblygu siop un stop ar gyfer gwybodaeth er mwyn egluro'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni, ni waeth a yw'n gynllun a weinyddir gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU neu Awdurdod Lleol

## 5 Gofal Cymdeithasol

Amlygodd pandemig Covid-19 yn union pa mor holl bwysig yw'r sector gofal cymdeithasol i'n hiechyd a'n llesiant. Er mor hanfodol yw gofal cymdeithasol i'n cynhaliaeth a'n goroesiad, nid ydym yn ei werthfawrogi fel cymdeithas ac nid ydym yn gwerthfawrogi'r rheini sy'n gweithio ynddo. Credir o hyd fod gwaith gofalu yn waith sgiliau isel a gwerth isel. Mae gweithwyr gofal yn fwy tebygol o ennill islaw'r llawr cyflog cyfreithlon a phedair gwaith yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gael eu cyflogi ar gontractau dim oriau.[23] Mae'r amodau gwaith gwael hyn yn effeithio'n amlwg ar y gweithlu, yn cyfrannu at faterion recriwtio a chadw staff ac wedi'u cysylltu â'r ansawdd gofal a ddarperir.[24]

Mae'r ffaith bod menywod yn flaenllaw mewn swyddi gofal rheng flaen, a nodweddir gan dâl isel, contractau ansicr a diffyg dilyniant, yn cyfrannu at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn gadael menywod mewn mwy o risg tlodi.

Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yw'r mwyaf yn economi Cymru, gan gyflogi dros 180,000 o bobl mewn 350 o wahanol rolau.[25] Mae menywod yn flaenllaw yn y gweithlu – menywod yw 83% o'r rheini sy'n gweithio i ddarparwyr gofal a gomisiynir yng Nghymru ac mae 48% dros eu 50.[26]

Cytunir yn helaeth fod comisiynu yn fater allweddol ar gyfer sbarduno newid. Mae'r arfer comisiynu cyfredol sy'n seiliedig ar fodel amser a thasg, ac sy'n cael ei bwysoli tuag at gost, yn arwain at amodau gwaith gwael, am fod telerau ac amodau'n cael eu tandorri i fodloni prisiau uned is.[27] "Yn y gorffennol, mae rhai arferion caffael (yn anfwriadol) wedi tanseilio ein gallu i gyflenwi gwasanaethau wedi'u personoli, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, wedi'u darparu gan weithlu cynaliadwy o ansawdd da."[28]

Cynigia buddsoddiad mewn gofal cymdeithasol nifer o fuddion. Bydd yn gwella llesiant pobl yng Nghymru, bydd yn gwella mynediad at waith teg ac mae hefyd yn gydnaws â chynaliadwyedd am fod swyddi gofal yn swyddi gwyrdd. Dylai sicrhau bargen newydd i weithwyr gofal cymdeithasol fod yn ffocws canolog felly i'r Llywodraeth Cymru nesaf.

[23] Resolution Foundation (2020) *What happens after the clapping finishes? The pay, terms and conditions we choose for our care workers*

[24, 25, 26, 27] Gofal Cymdeithasol Cymru (2019) Cymru Iachach: Ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

[28] Ibid

1 **Gwneud gofal cymdeithasol yn sector allweddol wrth wraidd strategaeth economaidd er mwyn cydnabod ei bwysigrwydd cenedlaethol, strategol a sicrhau bod y sector yn elwa ar fuddsoddiad a mentrau teg, fel datblygu sgiliau a gwaith teg**

2 **Cyflenwi "bargen newydd" i weithwyr gofal sy'n sicrhau bod telerau ac amodau cyflogaeth yn cael eu gwella:**
- Rhaid i hyn gynnwys, o leiaf, talu'r Cyflog Byw go iawn, cyfyngiadau ar gontractau dim oriau, gwell sicrwydd swydd, gwell cyd-fargeinio, gwell mynediad at hyfforddiant a gwell llwybrau dilyniant.
- Rhaid i refeniw ychwanegol a godir ar gyfer gofal cymdeithasol arwain at wella amodau gwaith yn y sector.

3 **Rhoi siarter comisiynu moesegol ar waith ar gyfer gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau dull cyson o gomisiynu ledled Cymru sy'n edrych y tu hwnt i gost fel y maen prawf pwysicaf ac sy'n gyrru darparwyr anfoesegol, o ansawdd gwael allan o'r farchnad**

## 6 Cludiant

Mae seilwaith cludiant digonol ar sail leol a chenedlaethol yn hanfodol i alluogi menywod i gael mynediad at waith a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac aros mewn cysylltiad â'u cymunedau. Fodd bynnag, mae anghenion a gofynion cludiant menywod a dynion yn gwahaniaethu oherwydd y ffordd maen nhw'n rhyngweithio â'r farchnad lafur, eu safle'n ofalwyr a'u rolau yn eu cymuned leol.

Dibynna menywod yn fwy ar gludiant cyhoeddus; mae'n llai tebygol bod car ar gael iddynt, yn enwedig os ydynt yn anweithgar yn economaidd, ac maent ddwywaith mor debygol â dynion o ddefnyddio bysiau.[29] Mae'n fwy tebygol hefyd fod angen siwrneiau lleol, amlach, byrrach ar fenywod oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu cynyddol, a'r ffaith eu bod yn fwy tebygol o weithio'n agosach i gartref.[30] Gall gwasanaethau cludiant gwael nad ydynt yn addas i anghenion menywod eu hatal rhag cael swyddi tâl uwch, o ansawdd gwell, gan gyfrannu at anghydraddoldeb ehangach.

Mae'n ddigon posibl y bydd defnydd o gludiant yn newid wrth inni barhau i wella ac ailadeiladu wedi argyfwng Covid-19. Mae newid tymor hir yn ein ffyrdd o weithio yn debygol, wrth i fwy o gyflogwyr a chyflogeion wireddu manteision gweithio mwy ystwyth a phell. Bydd hyn yn debygol o newid y ffordd y mae pobl yn defnyddio cludiant cyhoeddus.

Drwy gydol ein hymgysylltiad â menywod ledled Cymru ar gyfer yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, nodwyd cludiant yn faes allweddol o bwysigrwydd ar gyfer gwella sefyllfa menywod yng Nghymru.[31] Dywedodd y menywod y siaradom â hwy, yn enwedig y rheini mewn cymunedau gwledig, eu bod wedi gweld y gwasanaethau y dibynnant arnynt – yn enwedig gwasanaethau bws – yn cael eu hisraddio a'u torri'n ôl, hyd nes eu bod yn methu â bodloni eu hanghenion mwyach.[32] Roedd hyn yn arbennig o ddifrifol i'r rheini sy'n gweithio oriau afreolaidd neu ran-amser, a'r rheini ag ymrwymiadau gofalu.

Roedd diogelwch ar gludiant cyhoeddus ac mewn gorsafoedd hefyd yn bryder a godwyd gan fenywod y siaradom â hwy, ac awgryma tystiolaeth y gall effeithio ar ymddygiad menywod a merched fel defnyddwyr cludiant. Canfu arolwg YouGov fod 55% o fenywod ifanc a merched yn osgoi defnyddio cludiant cyhoeddus oherwydd profiadau o aflonyddu rhywiol.[33]

Dylai anghenion menywod fod wrth wraidd darparu a chynllunio cludiant; o fysiau a threnau, i orsafoedd a safleoedd teithio llesol. Mae'n hanfodol ystyried rhywedd er mwyn i gludiant fodloni anghenion menywod a dynion. Rhaid blaenoriaethu buddsoddiad mewn cludiant cyhoeddus sy'n gweithio i fenywod yn ystod tymor Senedd 2021-2025.

[29] Chwarae Teg (2016), *Working Women's Journeys*

[30] Ibid.

[31] Chwarae Teg (2019), *Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol: Mapio Llwybr i Gymru*

[32] Ibid

[33] YouGov (2016), "A Third of British Women have been groped in public", cyrchwyd mis Mai 2020, https://yougov.co.uk/topics/lifestyle/articles-reports/2016/03/08/third-women-groped-public

1 **Datblygu polisïau ar gyfer cludiant cyhoeddus mewn cydweithrediad â chymunedau, ar sail eu hanghenion yn ddefnyddwyr cludiant:**
- Sicrhau bod pob corff sy'n rhan o wneud penderfyniadau am gludiant cyhoeddus yn dangos sut mae atebion wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â chymunedau
- Mynnu bod darparwyr cludiant cyhoeddus ac awdurdodau lleol yn casglu data dadelfenedig am ymddygiad defnyddwyr i hysbysu datblygiad gwasanaeth parhaus
- Gwella diogelwch cerbydau a gorsafoedd cludiant cyhoeddus, wedi'i hysbysu gan anghenion menywod, er mwyn eu gwneud yn fwy diogel. Bydd gwella lleoedd cyhoeddus a darparu mecanweithiau adrodd diogel yn helpu i sicrhau bod menywod yn gallu teithio'n ddiogel heb ofn

2 **Sicrhau nad yw darpariaeth, prisiau tocynnau a disgowntiau cludiant cyhoeddus yn ffafrio patrymau gweithio a theithio 'traddodiadol' yn unig sy'n tueddu i fod yn addas i ddynion yn bennaf, a'u bod ar gael ar gyfer siwrneiau byrrach, sawl-stop ac oriau rhan-amser sy'n gweddu'n well i anghenion menywod**

3 **Sicrhau bod mynediad diogel a hawdd at gludiant lleol yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio ar gyfer datblygiadau newydd, yn enwedig gweithleoedd, ysgolion a gwasanaethau iechyd newydd**

4 **Cyflwyno, fesul dipyn, hyfforddiant ar aflonyddu rhywiol mewn mannau cyhoeddus, ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, darparwyr bws Cymru a darparwyr cludiant cyhoeddus eraill a hyfforddi aelodau o staff i fod yn wyliedyddion gweithredol, gan gynnwys sut mae monitro, adrodd ac atal digwyddiadau o aflonyddu neu gam-drin rhywiol ar gludiant cyhoeddus**



# Cynrychioli Menywod

Mae cynrychiolaeth menywod yn bwysig. Pan fydd menywod yn yr ystafell, rhoir sylw i faterion gwahanol, ac mae cael delfrydau ymddwyn amlwg ac amrywiol yn helpu i chwalu rhwystrau rhag arwain ac yn codi uchelgeisiau menywod ifanc.

Canfu dadansoddiad gan Senedd Cymru mai menywod sy'n gyfrifol am rhwng dwy ran o dair a thri chwarter o bob ymyriad sy'n defnyddio termau allweddol fel gofal plant, cam-drin domestig a chyflog cyfartal.[34]

Yn y gweithle, gwelwyd bod cwmnïau ag arweinyddiaeth fwy amrywiol yn fwy proffidiol, a'u bod yn elwa ar wneud gwell penderfyniadau oherwydd ystod ehangach o safbwyntiau, profiadau a barn.[35] Canfu'r ymchwil nifer o fuddion amrywiaeth i fusnesau, gan gynnwys creu gwell canlyniadau i gwsmeriaid, gwell enillion busnes, gwell arloesedd a chreadigrwydd a gwell enw a brand.[36] Mae astudiaethau eraill wedi cysylltu amrywiaeth fel sbardun allweddol i arloesedd, perfformiad ariannol a gwell penderfyniadau.[37]

Er y gwnaethpwyd cynnydd mewn rhai meysydd, mae menywod yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi â dylanwad ar draws bywyd cyhoeddus ac mewn busnes. Ni allwn fforddio i hyn barhau.

Mae gan Gymru'r pŵer i sicrhau bod menywod amrywiol, yn y dyfodol, yn cael eu cynrychioli'n deg ym mhob agwedd ar fywyd, ac yn mwynhau cyfran deg o bŵer a dylanwad. Gallwn gael Senedd sy'n wir gynrychioli amrywiaeth cymunedau Cymru; gallwn gael piblinell sy'n cefnogi gweithluoedd amrywiol, sy'n gytbwys o ran rhywedd ym mhob sector yn ein heconomi, a gallwn ddarparu system addysg i bobl ifanc sydd yn ehangu gorwelion ac yn herio unrhyw a phob ystrydeb a allai gyfyngu ar uchelgeisiau a nodau gyrfa.

Rhaid felly fod sicrhau a chynnal cynrychiolaeth deg menywod ar draws pob sector yn yr economi, cymdeithas a bywyd cyhoeddus yn nod canolog i dymor 2021-2025 y Senedd.

[34] P. Chaney Women and Policy-making: Devolution, Civil Society and Political Representation, in Our Changing Land: Revisiting Gender, Class and Identity in Contemporary Wales (gol. Mannay D.). Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd. (t.220-238), 2016

[35] McKinsey & Co (2016) *The Power of Parity: Advancing Women's Equality in the United Kingdom*

[36] PwC (2018) *Diversity is the solution, not a problem to solve: The Diversity Project*

[37] Astudiaethau y cyfeirir atynt yn Lyons, S. "The Benefits of Creating a Diverse Workforce" Forbes 9 Medi 2019 https://www.forbes.com/sites/



## 7 Cynrychiolaeth mewn Bywyd Cyhoeddus

Mae cynrychiolaeth menywod ym mywyd cyhoeddus Cymru yn ddarlun cymysg. Er bod menywod yn cael eu cynrychioli'n dda mewn rhai meysydd, ceir bylchau amlwg mewn meysydd eraill. Roedd tymor etholiadol 2016 y Senedd hefyd yn arddangos mor fregus yw cydraddoldeb rhywiol mewn gwleidyddiaeth, gyda chyfran lawer is o fenywod yn cael eu hethol yn Aelodau o'r Senedd nag sy'n eistedd ar hyn o bryd yn y Senedd. Fodd bynnag, ni etholwyd menyw o liw erioed i Senedd Cymru, a chafwyd amrywiaeth wael o wahanol gefndiroedd ymhlith Aelodau gwrywaidd o'r Senedd. Mae angen gwaith sylweddol i sicrhau bod bywyd cyhoeddus Cymru'n llawn o unigolion sy'n adlewyrchu a chynrychioli ein cymunedau amrywiol.

- Menywod yw 47% o Aelodau'r Senedd, 35% o Aelodau Seneddol Cymru a 28% o gynghorwyr lleol Cymru.[38]
- Dynion yn bennaf sydd yn y swyddi arwain mewn cynghorau lleol o hyd, a dim ond 23% o arweinwyr cyngor a 32% o aelodau cabinet cyngor yn fenywod.[39]
- Roedd menywod i gyfrif am 64% o benodiadau cyhoeddus yn 2018-19 a 56% o gadeiryddion. Mae cynrychiolaeth grwpiau eraill yn ofnadwy o isel o hyd, a dim ond 3% o benodiadau cyhoeddus yn 2018-19 yn bobl dduon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig.

Yn ogystal â sicrhau amrywiaeth llais a barn i hysbysu penderfyniadau, mae amrywiaeth yn ein gwleidyddiaeth a'n llywodraethu hefyd yn sicrhau bod ein democratiaeth yn cynrychioli'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Dylid cymryd camau ar ddechrau tymor nesaf y Senedd i wella a chynnal amrywiaeth yng ngwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus Cymru.

[38] Chwarae Teg (2020) *Cyflwr y Genedl 2020*

[39] Ibid

[40] Dylai cwotâu rhyw fynnu bod pleidiau'n cyflwyno rhestri ymgeiswyr sy'n cynnwys o leiaf 50% o fenywod neu gael eu rhestr wedi'i gwrthod gan Swyddogion Canlyniadau lleol

**1 Gweithredu'r argymhellion gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad yn llawn:**
- Cynyddu maint y Senedd i 90 o aelodau a etholir ar sail Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, gyda chwota rhyw integredig[40]
- Galw ar Lywodraeth y DU i ddechrau Adran 106 o'r Ddeddf Cydraddoldeb neu ofyn bod pwerau'n cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru
- Galluogi pobl i sefyll ar gyfer cael eu hethol i'r Senedd ar sail rhannu swydd

**2 Parhau i weithredu *Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru*, y strategaeth ar gyfer gwella cynrychiolaeth mewn penodiadau cyhoeddus. Dylid rhoi blaenoriaeth i:**
- Ddatblygu cynlluniau wedi'u targedu ar gyfer adeiladu'r biblinell, gan ddod â chydlyniant i gynlluniau mentora llwyddiannus presennol fel Step to Non-Exec, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig a datblygu cynlluniau ar gyfer grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol
- Recriwtio carfan newydd o aelodau panel penodiad annibynnol a'u hyfforddi ynghyd â Chadeiryddion a gweision sifil allweddol yn y dulliau recriwtio diweddaraf a ffyrdd o herio rhagfarn anymwybodol
- Datblygu a chyflwyno fesul dipyn ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i Fyrddau ar amrywiaeth, cynhwysiant, gwerth profiad byw a deddfwriaeth, fel cynnig grŵp ac fel opsiwn ar gyfer datblygiad unigol

## 8 Cynrychiolaeth yn y Gwaith

Mae menywod yn dal i fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi sy'n gwneud penderfyniadau ar draws y rhan fwyaf o sectorau ac mae gwahanu sylweddol yn parhau mewn sectorau fel gofal neu beirianneg, lle mae naill ai menywod neu ddynion yn flaenllaw iawn yn y gweithluoedd.

Menywod yw 39% o reolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion[41]

Menywod sy'n arwain 16% o'r busnesau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru[42]

Mae 19.6% o ddynion yng Nghymru'n gweithio mewn galwedigaethau crefftau gyda sgiliau o'u cymharu â 2.7% o fenywod[43]

Menywod yw 13% o'r gweithlu adeiladu, 22% o'r gweithlu gweithgynhyrchu a 29% o'r gweithlu TG

Menywod yw 80% o'r gweithlu iechyd dynol a gwaith cymdeithasol a 66% o'r gweithlu addysg[44]

Cyfranna'r gwahanu hwn at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac mae'n rhwystro cydraddoldeb rhywiol. I fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn, mae angen cymryd camau ar nifer o adegau, gan gynnwys ymyriadau sy'n canolbwyntio ar lwybrau at waith. Mae angen inni gefnogi pobl ifanc i ystyried opsiynau gyrfa ehangach a herio'r ystrydebau rhyw sy'n cael eu ffurfio'n ifanc iawn. Dyma faes lle gellir gwneud y mwyaf o liferi datganoledig cyfredol i sbarduno newid yn gyflymach.

[41, 42, 43, 44] Chwarae Teg (2020) *Cyflwr y Genedl 2020*

## 9 Addysg



Mae'r anghydraddoldeb a'r gwahanu a welwn yn ein gweithlu yn cael eu llywio gan y dewisiadau a wneir yn gynnar yn ein bywydau. Caiff profiadau merched a bechgyn yn yr ysgol effaith enfawr ar y dewisiadau a wnânt, eu potensial a'u huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Mae'r dewisiadau a'r profiadau cynnar hyn yn gwneud llwybrau y gall fod yn anodd eu newid yn ddiweddarach mewn oes.

Er ei bod yn hanfodol gweithredu yn y farchnad lafur i chwalu ystrydebau a mynd i'r afael â gwahanu, mae ymyriad cynnar yn allweddol i sicrhau bod merched a bechgyn yn gallu cael llawn cymaint â'i gilydd at ystod o sgiliau, swyddi a sectorau. Mae ymyriadau mewn addysg, a darparu dysgu gydol oes, yn cael effaith uniongyrchol ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn yr economi, ac maent yn offer hanfodol ar gyfer cynorthwyo adferiad economaidd.

Mae angen newid tymor hir, cenedliadol i sicrhau bod gennym biblinellau cynaliadwy o fenywod a grwpiau amrywiol yn dod i fewn i waith ar draws y gwahanol sectorau yng Nghymru. Gwelsom symudiadau cadarnhaol yn y tymor etholiadol diwethaf ar gyfer gwreiddio cydraddoldeb rhywiol a dealltwriaeth ddiwylliannol yn y cwricwlwm ysgol, a bydd canlyniadau hynny'n dod i'r amlwg yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, mae camau pellach y gallwn eu cymryd ar unwaith i wreiddio cydraddoldeb rhywiol ymhellach ar draws addysg, yn enwedig mewn addysg uwch ac addysg bellach.

Rhaid i ymdrechion i wella canlyniadau cyfartal mewn addysg orfodol ddod ochr yn ochr ag ymyriadau ynghylch dysgu gydol oes, cyngor gyrfaoedd, darparu hyfforddiant, a mesurau gweithle ac economaidd. Rydym wedi gwneud argymhellion pellach yn y maniffesto hwn sy'n benodol gysylltiedig â'r meysydd hyn.

**1 Gwneud cydraddoldeb rhywiol yn fesur canolog o lwyddiant addysgol:**
- Mynnu bod ysgolion, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach a Phrifysgolion yn casglu data ac yn adrodd am ddadansoddiad rhyw y nifer sy'n dechrau pwnc er mwyn adnabod rhwystrau a mynd i'r afael â hwy, yn enwedig mewn pynciau STEM. Dylid gofyn i Weinidogion adrodd am y data hwn yn flynyddol mewn datganiad i'r Senedd
- Mynnu bod CCAUC, ac ymhen amser y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yn monitro'r cynnydd tuag at gydraddoldeb rhywiol mewn sefydliadau addysg ôl-16 ac yn defnyddio eu rôl yn gorff ariannu i fynnu gweithredu ar draws y sector ôl-16, gan gyhoeddi cynllun gweithredu i wella cydraddoldeb. Rhaid bod hyn yn mynd y tu hwnt i ymyriadau presennol, ac asesu canlyniadau yn hytrach na bwriadau

**2 Diogelu menywod a merched mewn sefydliadau addysgol:**
- Sicrhau bod ysgolion, colegau, prifysgolion a sefydliadau addysgol eraill yn cymryd pob cam posibl i atal aflonyddu rhywiol a diogelu menywod a merched rhagddo
- Sicrhau bod darparwyr addysg a staff cymorth yn cael eu hyfforddi a'u paratoi i ymateb i achosion o aflonyddu rhywiol yn briodol, a bod cymorth iechyd meddwl a bugeiliol ar gael

## 9 Addysg
## *Cyngor Gyrfaoedd*

Mae tybiaethau ac ystrydebau ar sail rhyw yn dal i lywio dewisiadau gyrfa. Mae hyn yn dwysáu, neu'n ail-greu, yr anghydraddoldeb yn y farchnad lafur sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb incwm rhwng dynion a menywod, fel sy'n cael ei brofi gan y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

- Teimla 55% o fenywod ifanc fod eu rhyw yn cyfyngu ar eu dewisiadau gyrfa, o'u cymharu â 37% o ddynion ifanc[45]
- Mae dynion ifanc yn anelu at gyflog canolrifol sydd £1063 yn fwy na menywod ifanc[46]
- Mae yna wahaniaeth 18 pwynt rhwng pa mor debygol mae dynion ifanc o ddweud eu bod yn ystyried swydd mewn peirianneg neu TG a gwahaniaeth 17 pwynt ym mha mor debygol y mae menywod ifanc yn ystyried addysgu o'u cymharu â dynion ifanc[47]
- Dywedodd 87% o fenywod ifanc a holwyd yng Nghymru fod ystrydebau rhyw yn effeithio ar ddewisiadau gyrfa menywod.[48] Dywedodd 77% fod hyn oherwydd ystrydebau sy'n effeithio ar hyder menywod a'u rhyddid mynegiant a dywedodd 68% ei fod yn effeithio ar gyfleoedd menywod yn y gwaith yn y dyfodol[49]
- Dengys data arolwg rhyngwladol fod gan 30% o'r rheini yn eu harddegau ddiddordeb mewn deng galwedigaeth yn unig a bod uchelgeisiau'n cael eu llywio'n helaeth gan statws economaidd-gymdeithasol, rhyw a chefndir mudol[50]

Dylai Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd fod yn elfen bwysig wrth gefnogi pobl ifanc i gynllunio gyrfa a gwneud penderfyniadau am eu gyrfa, a gall helpu i herio tybiaethau ar sail rhyw ac felly ehangu gorwelion. Fodd bynnag, crybwyllodd menywod ifanc yng Nghymru nifer o heriau o ran darparu cyngor gyrfaoedd yng Nghymru, pan gawsant eu holi yn 2018[51]:
- Nid oes cynllun gyrfa gan 71% o fenywod ifanc (16-25)
- O'r rheini sydd â chynllun gyrfa, mae 42% yn gweithio arno ar eu pen eu hunain
- Nid yw 64% o fenywod ifanc wedi defnyddio gwasanaethau cyngor gyrfaoedd ffurfiol
- O'r rheini sydd yn defnyddio gwasanaethau cyngor gyrfaoedd, neu sydd wedi eu defnyddio, mae'r mwyafrif wedi cael mynediad atynt drwy eu hysgol a dywedodd 54% eu bod yn ddefnyddiol

Rhaid i wella mynediad at gyngor gyrfaoedd, a gwella ei ansawdd, fod yn flaenoriaeth ganolog yn ystod tymor 2021-2025 y Senedd.

[45] World Skills UK (2018) *Closing the Gender Gap*

[46, 47] Ibid

[48] Chwarae Teg (2018) *Disglair: Dyheadau Gyrfa Menywod Ifanc*

[49] Ibid

[50] UNESDOC (2019) *Investing in Career Guidance*

[51] Chwarae Teg (2018) *Disglair: Dyheadau Gyrfa Menywod Ifanc*

**1 Sicrhau bod gofyn i'r ddarpariaeth cyngor gyrfaoedd fynd ati i herio tybiaethau ar sail rhyw a chanlyniadau anghyfartal:**
- Cynnwys cydraddoldeb rhywiol mewn canlyniadau lefel uchel a llythyr cylch gwaith i Gyrfa Cymru
- Hyfforddi pob cynghorwr gyrfaoedd i nodi a herio tybiaethau ar sail rhyw mewn modd effeithiol
- Gwerthuso modelau cyflenwi cyfredol i asesu pa mor effeithiol y maen nhw'n mynd i'r afael ag ystrydebau rhyw

**2 Gwella argaeledd, hygyrchedd a pherthnasedd cyngor gyrfaoedd, yn enwedig ar adegau pontio allweddol:**
- Cynyddu argaeledd darpariaeth a chymorth wyneb yn wyneb i'r rheini sydd wedi cwblhau Cyfnod Allweddol Pedwar ac addysg orfodol
- Sicrhau pontio esmwyth i unigolion rhwng Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio a monitro cyflenwad ac effaith wrth i Cymru'n Gweithio ymsefydlu yn bwynt mynediad i oedolion
- Sicrhau o leiaf un cyfle i bob disgybl gael profiad gwaith i sicrhau mynediad teg ac ehangu uchelgeisiau gyrfa

## 9 Addysg
## *Prentisiaethau*

Mae prentisiaethau'n llwybr allweddol at waith. Yn 2018/19 dechreuwyd 25,945 o brentisiaethau yng Nghymru.[52] Ar y cyfan, menywod oedd tua 60% o'r rheini a oedd yn dechrau prentisiaethau. Fodd bynnag, mae llwybrau prentisiaeth wedi'u gwahanu'n amlwg o hyd ar sail rhyw. Yn 2018/19[53]:

Menywod oedd 5% o brentisiaid adeiladu

Menywod oedd 7% o brentisiaid peirianneg

Menywod oedd 84% o brentisiaid gofal iechyd a gwasanaeth cyhoeddus

Menywod oedd 85% o brentisiaid gwallt a harddwch

Mae'r gwahanu hwn yn arwain at fwlch cyflog prentisiaeth rhwng y rhywiau o ryw 8% ledled y DU.[54] Mae'r anghydraddoldeb incwm hwn hefyd yn parhau drwy gydol gyrfaoedd pobl, er enghraifft mae gweithwyr peirianneg proffesiynol yn ennill cyflog cyfartalog o £25,985 a thrinwyr gwallt a barbwyr yn ennill £13,373.[55]

[52] StatsCymru Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd fesul chwarter, sector a'r math o raglen 2018/2019 https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Work-Based-Learning/apprenticeshiplearningprogrammesstarted-by-quarter-sector-programmetype Cyrchwyd Gorffennaf 2020

[53] Ibid

[54] Young Women's Trust (2017) *Young Women and Apprenticeships: Still not Working*

[55] https://www.ons.gov.uk/visualisations/nesscontent/dvc205/index.html Cyrchwyd Gorffennaf 2020

**1 Mynd i'r afael â gwahanu rhwng y rhywiau mewn prentisiaethau:**
- Gosod targedau heriol, sy'n gysylltiedig â chyllid, i bob darparwr hyfforddiant gyflenwi prentisiaethau i fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws llwybrau prentisiaeth

# Menywod mewn Perygl

Er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, mae angen inni fynd i'r afael yn gyntaf â'r risgiau mwyaf i ffyniant menywod. Mae menywod yn parhau i wynebu mwy o risg o dlodi, ynysu cymdeithasol a chaledi ariannol oherwydd y safle gwahanol sydd ganddynt mewn gwaith ac yn y gymdeithas. Hefyd, mae menywod yn wynebu risg sylweddol o drais, cam-drin ac aflonyddu, sy'n achos ac yn ganlyniad anghydraddoldeb rhywiol.

Mae'r materion hyn yn gysylltiedig â materion diwylliannol a strwythurol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn, ond maent hefyd o ganlyniad i fethiant polisi. Mae gennym system nawdd cymdeithasol nad yw mwyach yn cynnig rhwyd ddiogelwch ddigonol, economi sy'n dibynnu'r ormodol ar waith ansicr am dâl isel, a system cyfiawnder troseddol sy'n methu ag amddiffyn menywod sy'n destun trais a chamdriniaeth.

Er nad yw'r liferi i sicrhau newid yn uniongyrchol yn rhai o'r meysydd hyn wedi'u datganoli eto, gellir gwneud mwy i leihau'r risgiau sy'n parhau i wynebu menywod.

Rhaid gwneud tlodi yn rhan o'n hanes ac nid ein dyfodol. Dylai menywod allu mwynhau sicrwydd ariannol, a rhaid i'n system nawdd cymdeithasol ddarparu rhwyd ddiogelwch ddigonol sy'n cynnal urddas a hawliau dynol pobl.



Rhaid inni sicrhau bod Cymru'n genedl lle gall menywod fyw'n rhydd o ofn aflonyddu, trais a chamdriniaeth, a lle gallant ddisgwyl cael eu credu a'u trin â pharch pe byddai angen iddynt adrodd am unrhyw ddigwyddiadau.

A rhaid i Gymru fod yn genedl lle gallwch gael ail, trydydd neu ddegfed cyfle, pe byddai ei angen arnoch. Mae dysgu gydol oes yn achubiaeth i lawer, a rhaid inni sicrhau bod pobl yng Nghymru wedi Brexit yn gallu cael gwell mynediad at sgiliau, addysg a hyfforddiant, ar unrhyw adeg yn eu bywydau.

Nes bod pob menyw'n gallu byw bywyd diogel a boddhaus, byddwn wedi methu â sicrhau cymdeithas deg a chyfartal.

## 10 Mynd i'r Afael â Thlodi

Bu tlodi'n fater cyson yng Nghymru ers nifer o ddegawdau. Mae'r gyfradd dlodi yn ystyfnig o uchel, a rhyw chwarter o aelwydydd yn byw mewn tlodi incwm cymharol.[56] Mae gwir berygl y gallai effeithiau tymor hir argyfwng Covid-19 rwystro ymhellach yr ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi a gweld mwy o aelwydydd yn llithro i dlodi wrth i ddiweithdra gynyddu.

Gall risg, profiad ac effaith tlodi fod yn wahanol iawn i fenywod a dynion, a hynny'n rhannol oherwydd eu safleoedd gwahanol iawn yn aml yn y farchnad lafur ac o fewn aelwydydd. Fodd bynnag, gall ehangder llawn y gwahaniaethau hyn gael ei guddio gan fesurau aelwydydd o dlodi sy'n tybio rhannu adnoddau'n gyfartal.

Roedd ein hymchwil i dlodi menywod, Yn Gaeth, yn ystyried pum mesur o dlodi – incwm cymharol, amddifadedd materol, asedau a dyled, digartrefedd a sicrwydd bwyd. Ar draws y pump i gyd, gwelir bod menywod yn wynebu ychydig mwy o risg, ond yn allweddol dengys y data sut mae tlodi menywod yn cael ei ffurfio, a'i guddio weithiau, gan eu perthynas â phartner a bod risg tlodi i fenywod â phlant yn arbennig o amlwg.[57]

Gellir nodi nifer o sbardunau tlodi allweddol ymhlith menywod, gan gynnwys gwaith a'r farchnad lafur, y system nawdd cymdeithasol, gofal plant, mynediad at wasanaethau hanfodol a threfniadau ariannol aelwyd.[58] Mae gofyn gweithredu yn yr holl feysydd hyn yn ystod tymor nesaf y Senedd i leihau tlodi ymhlith menywod yng Nghymru.

[56] Chwarae Teg (2020) *Cyflwr y Genedl 2020*

[57] Winkler, V. (2020) *Winkler, V. (2020) Yn Gaeth: Tlodi Ymhlith Menywod yng Nghymru Heddiw, Chwarae Teg*

[58] Ibid

1 **Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi ymhlith menywod:**
- Rhoi strategaeth effeithiol, draws-lywodraeth ar waith sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion gwreiddiol tlodi, sy'n cydnabod y gwahanol nodweddion, amgylchiadau a rhwystrau sy'n wynebu pobl mewn tlodi
- Mynnu bod pob Gweinidog yn adrodd yn flynyddol am gynnydd mewn perthynas â dangosyddion cadarn sy'n cael eu mesur gan ddefnyddio tystiolaeth ddadelfenedig

2 **Gofyn i Lywodraeth y DU ddatganoli pwerau gweinyddol dros Gredyd Cynhwysol i roi dewis a hyblygrwydd i fenywod wrth reoli eu cyllid eu hunain**

3 **Creu system gydlynol o fudd-daliadau i Gymru ar sail egwyddorion cydraddoldeb, urddas a thegwch:**
- Creu un pwynt mynediad sy'n darparu eglurder o ran cymhwyster, gwybodaeth ac arweiniad
- Diwygio budd-daliadau presennol Cymru, gan gynnwys prydau ysgol am ddim, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r Gronfa Cymorth Dewisol i ehangu cymhwyster a gwella'r nifer sy'n manteisio arnynt

## 11 Aflonyddu Rhywiol

Caiff aflonyddu rhywiol effaith sylweddol ar y ffordd y mae menywod a merched yn byw eu bywydau; mae'n effeithio ar y ffordd y byddant yn ymddwyn, pryd a sut maen nhw'n teithio, sut maen nhw'n defnyddio mannau cyhoeddus a sut maen nhw'n rhyngweithio mewn bywyd cyhoeddus.

Mae aflonyddu rhywiol yn endemig, ac er mwyn mynd i'r afael yn briodol ag ef, mae angen inni fod yn onest â ni'n hunain am ei fynychder mewn cymdeithas. Canfu ymchwil Plan UK y bu 52% o blant yn eu harddegau yng Nghymru yn destun aflonyddu rhywiol yn gyhoeddus.[59] Ledled y DU, dywedodd un o bob wyth merch y digwyddodd eu profiad cyntaf o sylw rhywiol digroeso mewn man cyhoeddus pan oeddent yn ddeuddeg oed neu'n iau.[60]

Gall aflonyddu rhywiol fod yn gynnil a llechwraidd, ac fe'i cuddir yn aml mewn agweddau diwylliannol sydd wedi dyddio; deellir yn dda fod perthynas sylweddol rhwng cred mewn normau traddodiadol a derbynioldeb aflonyddu rhywiol cyhoeddus.[61] Ceir meysydd hefyd lle mae aflonyddu rhywiol yn cael ei normaleiddio a'i ystyried yn rhan anochel o fywyd, fel yn economi'r nos.[62]

Mae rhai agweddau ar fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol a'i atal, ar hyn o bryd, y tu hwnt i gymhwysedd Llywodraeth Cymru, fel rheoliadau cyflogaeth a'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig fod y Llywodraeth Cymru nesaf yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y gwneir y mwyaf o bob lifer i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau aflonyddu rhywiol.

Rhaid i gamau i atal aflonyddu rhywiol, sicrhau mecanweithiau adrodd effeithiol i fenywod sy'n adrodd am gam-drin a gwneud ein mannau cyhoeddus yn ddiogel fod yn flaenoriaeth ganolog i'r Llywodraeth Cymru

[59] ITV Wales, "More than half of young women in Wales experienced unwanted sexual attention" 20 Mai 2019 https://www.itv.com/news/wales/2019-05-20/more-than-half-of-young-women-in-wales-experienced-unwanted-sexual-attention/ Cyrchwyd Mehefin 2020

[60] Plan UK (2018) *It's not ok*

[61] YouGov ar ran Tŷ'r Cyffredin, Cwestiynau Aflonyddu'r Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb, 2018. https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmwomeq/701/701.pdf

[62] Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb Tŷ'r Cyffredin (2018) Sexual Harassment of Women and Girls in Public Places

1 **Herio'r agweddau diwylliannol sy'n caniatáu i aflonyddu rhywiol ddigwydd, ac addysgu a grymuso dinasyddion i adnabod a herio aflonyddu rhywiol:**
- Sicrhau bod y cwricwlwm yn mynd i'r afael ag ystrydebau rhyw niweidiol ymhlith merched a bechgyn ifanc; meithrin sgyrsiau am wrywdod, benyweidd-dra a normau rhyw traddodiadol, yn ogystal â hwyluso ac annog sgyrsiau am barch a chaniatâd o oedran ifanc
- Hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus am yr hyn a olygir wrth aflonyddu rhywiol a'r niwed y mae'n ei achosi. Arwain ymgyrchoedd o fewn ac ar draws cymunedau yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar dynnu sylw negyddol at aflonyddu rhywiol a pheidio â bod yn wyliedydd, a mynd i'r afael â gwahaniaeth agwedd rhwng diwylliannau a chenedlaethau

2 **Gwella mecanweithiau a phrosesau adrodd ynghylch aflonyddu rhywiol, er mwyn dod i ddeall y broblem a'i hachosion yn well:**
- Gwneud casineb at fenywod yn drosedd casineb yng Nghymru, er mwyn annog pobl i adrodd am ddigwyddiadau a galluogi categoreiddio'r drosedd yn well er mwyn deall graddfa casineb at fenywod ac adnabod mannau problemus
- Casglu data penodol i Gymru ar aflonyddu rhywiol i ddeall graddau'r broblem, monitro tueddiadau a phatrymau, nodi grwpiau allweddol sy'n wynebu risg, a gwella dulliau atal

3 **Gwella diogelwch mewn mannau cyhoeddus, ar gludiant lleol, mewn sefydliadau a safleoedd addysgol ac yn economi'r nos er mwyn atal a mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol:**
- Ymgorffori'r broses o fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol a'i atal mewn unrhyw strategaeth ar gyfer economi'r nos yng Nghymru. Cyflwyno fesul dipyn a chymell ymgyrchoedd fel ymgyrch 'Ask for Angela', a ddechreuwyd yn Swydd Lincoln ac a ddefnyddir mewn rhai bariau a chlybiau yng Nghaerdydd, ledled Cymru
- Cynhyrchu canllawiau i gyrff cynllunio sicrhau bod diogelwch menywod yn ystyriaeth ganolog wrth gynllunio mannau cyhoeddus, fel strydoedd, parciau, gorsafoedd trên a safleoedd a gorsafoedd bysiau wedi'u goleuo'n dda
- Sicrhau bod holl ddarparwyr cludiant Cymru, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru a darparwyr bysiau Cymru, yn gweithredu polisïau aflonyddu rhywiol cadarn ac yn hyfforddi staff i adnabod digwyddiadau ac ymateb yn ddiogel a pharchus iddynt
- Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i dreialu system gwyliedydd ar gludiant cyhoeddus, gyda rhif cyswllt neu broffil cyfryngau cymdeithasol wedi'i hysbysebu ar gludiant cyhoeddus i fenywod adrodd digwyddiadau neu bryderon aflonyddu rhywiol iddo. Byddai hyn yn fecanwaith adrodd a gallai fod yn fesur ataliol
- Sicrhau bod safleoedd addysg yn mabwysiadu ymagwedd dim goddefgarwch at aflonyddu a cham-drin rhywiol, gyda gweithdrefnau adrodd clir ar waith, a hyfforddiant i baratoi staff i ymateb yn ddiogel i achosion o aflonyddu rhywiol


## 12 Dysgu Gydol Oes

Mae dysgu gydol oes yn "allweddol er mwyn integreiddio menywod yn ôl i'r farchnad lafur ar ôl seibiant gyrfa" ac yn "sbarduno gwell cydraddoldeb rhywiol".[63] Fodd bynnag, mae'r diffyg dysgu i oedolion a phrinder amlwg cyngor a chymorth i fenywod sydd am ddychwelyd i'r gwaith yng Nghymru yn helpu i gadw menywod yn gaeth yn eu rolau domestig a gwaith tâl isel.[64]

Mae darpariaeth addysg ran-amser wedi gostwng 70% yn y blynyddoedd diwethaf, a dysgu cymunedol gan awdurdodau lleol wedi'i ergydio'n galed hefyd.[65] Bu'r gostyngiad yn nifer y dysgwyr benywaidd dros deirgwaith cymaint â'r gostyngiad ymhlith dysgwyr gwrywaidd, sef i lawr 14,140 o gymharu â 4660 ar gyfer dynion rhwng 2021/13 a 2017/18.[66] Os nad yw menyw'n sicrhau pum gradd TGAU dda yn 15 oed, prin iawn yw'r cyfleoedd iddi ddianc rhag tlodi drwy ddysgu pan fydd hi'n hŷn.[67]

Daw menywod hefyd ar draws rhwystrau ychwanegol rhag dysgu gydol oes, sy'n aml yn gysylltiedig â chyfrifoldebau gofalu. Roedd 40% o fenywod yn 28 gwlad yr UE sy'n wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg a hyfforddiant yn methu cymryd rhan oherwydd cyfrifoldebau teuluol, o'u cymharu â 24% o ddynion.[68]

Rhaid i fuddsoddiad mewn dysgu gydol oes, gyda ffocws canolog ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, fod yn flaenoriaeth allweddol yn ystod tymor Senedd 2021-2025.



[63] EIGE (2019) *Gender Equality Index 2019 report*

[64, 65, 66, 67, 68] Winkler, V. (2019) Yn Gaeth: Tlodi ymhlith menywod yng Nghymru heddiw, Chwarae Teg

1 **Buddsoddi mewn dysgu gydol oes a sicrhau ffocws strategol ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb:**
- Dyblu'r buddsoddiad mewn dysgu gydol oes gyda ffocws ar gynyddu a gwella'r cyflenwi yn y gymuned a mynd i'r afael â thlodi digidol i oedolion
- Cydgysylltu dysgu i oedolion yn well yn genedlaethol a mynnu bod cyrff strategol sy'n cynllunio a chyflenwi dysgu i oedolion yn gosod amcanion uchelgeisiol o ran cydraddoldeb rhywiol

2 **Gwella mynediad at ddysgu gydol oes:**
- Sicrhau bod cymorth gofal plant ar gael i'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu'n rhwystr allweddol iddynt
- Buddsoddi mewn cyflenwi hyblyg, gan gynnwys dulliau modiwlaidd, gyda llwybrau clir at ddysgu pellach a chymwysterau cydnabyddedig

3 **Darparu cymorth ariannol i ddysgwyr:**
- Gwerthuso'r effaith y mae peilot presennol Cyfrifon Dysgu Personol wedi'i chael ar fenywod a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb
- Ehangu Cyfrifon Dysgu Personol i sectorau newydd gyda'r un ffocws ar sectorau lle mae menywod yn bennaf yn gweithio a phrif ffrydio cydraddoldeb rhywiol wrth gynllunio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau

## 13 Brexit

Mae Brexit yn achosi cryn risg i fenywod yng Nghymru. Mae'r UE wedi darparu fframwaith deddfu ac ariannol amhrisiadwy i Gymru a'i galluogodd i gyflenwi rhaglenni sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hefyd ysgogi'r agenda polisi ehangach. Mae aelodaeth o'r UE wedi cefnogi ymgyrchoedd ledled y DU, a'u sbarduno weithiau, i fynd i'r afael ag achosion strwythurol o anghydraddoldeb, cryfhau ac amddiffyn hawliau menywod a chanolbwyntio ar ddatblygu cydraddoldeb nid atal gwahaniaethu yn unig.

Heb y fframwaith hwn, mae pryderon y gallai hawliau a mesurau diogelu menywod fynd tuag yn ôl, neu fethu cadw i fyny â'r newidiadau a wnaed ledled yr UE. Er nad yw deddfwriaeth cydraddoldeb a chyflogaeth wedi'i datganoli, mae camau y gellir eu cymryd yng Nghymru i ddiogelu hawliau a mesurau diogelu. Os ystyrir bod yr hawliau a'r mesurau diogelu hyn, y brwydrwyd amdanynt, mewn perygl yn ystod tymor nesaf y Senedd, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud defnydd llawn o bob lifer presennol, ac ystyried a oes angen galw am ddatganoli pwerau pellach i ddiogelu menywod a grwpiau eraill sydd dan anfantais.

Colli cyllid yr UE, fel Cronfa Gymdeithasol Ewrop, yw un o risgiau sylweddol eraill Brexit. Mae Cronfeydd Strwythurol Ewrop wedi cefnogi nifer o raglenni dros y degawd diwethaf sy'n canolbwyntio ar gefnogi menywod a lleihau anghydraddoldeb. Wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, dadleuwyd yn helaeth ynghylch yr hyn a ddaw yn lle cyllid yr UE. Hyd yma, mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch ffurf Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, fel y'i cynigiwyd gan Lywodraeth y DU. Pa ffurf bynnag a fydd ar y cyllid hwn, mae'n hollbwysig cymryd camau wrth gynllunio a gweinyddu cyllid er mwyn cadw ffocws ar fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb.

1 **Sicrhau un gronfa, aml-flwydd sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi ledled Cymru:**
- Dylai'r gronfa hon gael ei gweinyddu yng Nghymru, a dylai ddefnyddio seilwaith cenedlaethol presennol a seilwaith rhanbarthol wedi'i gynllunio er mwyn galluogi gwariant effeithiol

2 **Sicrhau bod y cyllid a ddaw yn lle cyllid yr UE yn cadw themâu llorweddol cydraddoldeb a phrif ffrydio cydraddoldeb rhywiol a'i fod yn cyd-fynd â gweledigaeth ac argymhellion yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol**

# Chwarae Teg

www.chwaraeteg.com

policyandresearch@chwaraeteg.com

02920 462 745

@chwaraeteg